

Ffeithlen

Uwchlwytho tystiolaeth o'ch cyfrif banc (Sefydliadau)

Cyflwyniad

Rhydd y ddogfen hon wybodaeth ychwanegol i gynorthwyo sefydliadau o ran cyflwyno'r dystiolaeth ofynnol am gyfrif eu banc i'w cais am grant. Ni ddylech ystyried hwn fel ansoddi cyngor busnes na chyfreithlon.

Bydd yn rhaid ichi gyflwyno tystiolaeth sy'n dangos bod gennych gyfrif banc yn enw eich sefydliad sydd gyda phrawf fod o leiaf ddau berson (llofnodwyr ar y cyfrif) a all awdurdodi trafodion. Pan ddywedwn 'drafnodion', golygwn dynnu arian o gyfrif y sefydliad, trosglwyddo arian neu dalu arian i mewn. Dim ond tystiolaeth sy'n llai na 2 mlwydd oed ar y dydd rydych yn ymgeisio allwn ni dderbyn. Ni allwn dderbyn cyfrifon cymdeithas adeiladu sy'n gweithio ar system cael llyfr pas yn unig.

Ni fydd yn rhaid i gyrff statudol (megis lleoliadau celfyddydol neu ysgolion sydd o dan reolaeth-awdurdod lleol, cynghorau tref, byrddau iechyd neu brifysgolion) ddarparu'r wybodaeth hon. Yn yr achosion yma, rhaid i'r manylion y cyfrif fod yn enw'r sefydliad ei hun, neu yn enw'r awdurdod lleol.

Mae hyn yn ein helpu i wirio eich bod yn gymwys i wneud cais (i gael rhagor o wybodaeth, gweler ein dogfen [Cychwyn Arni](#)) ac mae'n ein helpu i ddeall sut y rheolwch eich arian.

Cymerwn y cyfrifoldeb o ddsbarthu arian y cyhoedd o ddifri a dyma pam mae'r ffordd y rhedwch eich arian yn bwysig inni. Disgwyliwn i'r sefydliadau a ariannwn feddu ar reolaethau priodol sydd hefyd ar waith sy'n sicrhau y gallent reoli'n effeithiol a phriodol unrhyw arian a gânt. Un o'r mesurau hyn yw gofyn am dystiolaeth sy'n profi bod dau berson o leiaf yn gallu awdurdodi trafodion.

Am beth yr ydym yn chwilio?

Cofiwch y chwiliwn am brawf o rif eich cyfrif a'ch còd didoli, bod y cyfrif yn enw eich sefydliad a bod angen o leiaf ddau berson i awdurdodi trafodion. Bydd yn rhaid ichi ddarparu'r dystiolaeth yma ar ffurf gyfathrebiad swyddogol gan y banc. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r mathau o ddogfennau y gellid eu darparu i ddiwallu'r gofyniad hwn:

- Ffotos o bob cerdyn banc ar y cyfrif sy'n dangos enwau'r holl lofnodwyr, enw a rhif y cyfrif a'r còd didoli. (Os nad yw enw'r sefydliad ar y garden, bydd rhaid cyflwyno gwybodaeth ychwanegol sy'n cysylltu'ch sefydliad i rif y cyfrif)
- Llythyr neu e-bost a ddengys yn glir y daeth o'ch banc sy'n cadarnhau'r wybodaeth

ofynnol

- Cipluniau sgrin o bob llofnodwr wedi'i fewngofnodi i wasanaethau bancio ar-lein sy'n dangos ei enw ymhlith gwybodaeth fancio'r sefydliad. Gwnewch yn siŵr bod y ciplun sgrin yn darparu'r holl wybodaeth y gofynnwn amdani

Mae'n bosib bydd rhaid i chi ddarparu sawl dogfen er mwyn sicrhau fod y cyfrif yn gallu cael ei wireddu.

Os na wyddoch a yw'ch gwybodaeth yn bodloni'r gofyniad, e-bostiwch:

buddsoddiacariannu@celf.cymru gyda'r dystiolaeth fel y gallwn eich cynghori.

Os llwydda eich cais, gofynnwn ichi ddarparu rhagor o fanylion am eich cyfrif. Ni allwn ryddhau unrhyw daliadau nes inni gael a gwirio'r wybodaeth hon. Cymerir unrhyw ddiffyg cysondeb o ddifri ac archwiliwn y mater.

Mae'n rhaid ichi gyflwyno'r wybodaeth hon am eich cyfrif banc. Ni fyddwn yn gallu derbyn eich cais hebddi.

Y fersiwn hon: Awst 2018
